DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 91 Ionawr 2012

Rhwydwaith Cyfleusterau Cymunedol

A oes gennych ystafelloedd ar gael i'w llogi?
Hoffech chi logi eich ystafelloedd neu neuadd?
Neu yn gwybod am unrhyw grŵp sydd yn....

Gall helpu greu incwm ychwanegol ar gyfer eich grŵp
Lleoliadau cyfarfod
Swyddfeydd
Cyfleusterau Cynhadledd
a llawer mwy ....

Mae Medrwn Môn yn llunio cronfa ddata ac yn edrych i greu rhwydwaith ar gyfer cyfleusterau cymunedol i'w wneud yn haws i grwpiau cymunedol, neuaddau pentref ac yn y blaen rhentu allan unrhyw ystafelloedd, neuaddau neu gyfleusterau sydd ganddynt. Os hoffech fod yn rhan o'r rhwydwaith hwn a'u cefnogi i gael mwy o ddefnydd allan o'u hadeiladau a chreu incwm ychwanegol ar gyfer eu grŵp, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen amgaeedig gyda'r rhifyn hwn o Dan Do Môn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Armon Williams, Swyddog Cymunedau Mentrus Medrwn Môn ar 01248 724944.

Arian i Elusen / Grŵp Gwirfoddol

Gwahoddir elusennau a grwpiau gwirfoddol i geisio am arian (oddeutu £250) a gasglwyd yn lleol - os â diddordeb mae angen i chi nodi'n fyr crynodeb o waith y grŵp neu'r gwasanaeth a gynigir, a pham y byddai'r arian o gymorth i chi.

Cysylltwch trwy e-bost â Mairwen Hughes ar mehcs@anglesey.gov.uk erbyn 15 Chwefror 2012, a bydd aelodau o'r clwb a gasglodd yr arian yn dewis yr elusen fwyaf haeddiannol yn eu tyb nhw i dderbyn y rhodd.

Gobeithiwn gynnwys stori a llun ar gyfer rhifyn Mawrth o Dan Do Môn.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

GWYBODAETH

Busnesau yn Cefnogi Cymunedau
Business Supporting Communities

Mae prosiect newydd cyffrous ar droed ar Ynys Môn sef **Busnesau yn Cefnogi Cymunedau** gyda'r bwriad o weithio gyda Busnesau lleol i rannu eu gwybodaeth, arbenigedd, offer ac unrhyw beth arall y maent yn barod i rannu neu ei roi i grwpiau cymunedol lleol.

A ydych yn grŵp cymunedol lleol ac yn chwilio am gymorth? Fel dewis amgen i wneud cais am gyllid a grantiau beth am ofyn i ni os gallwn helpu trwy annog busnesau lleol i'ch cefnogi.

Ers i'r prosiect ddechrau ac mewn amser byr, rydym wedi llwyddo i:

- helpu grŵp cymunedol gyda deunyddiau ar gyfer adnewyddu eu hadeiladau;
- darparu amrywiaeth o offer TG i grŵp gan fusnes nad oedd yn ei ddefnyddio bellach;
- darparu hyfforddiant cymorth cyntaf am ddim;
- gwneud cysylltiadau rhwng busnesau bach a grwpiau lleol i ddarparu arddangosfeydd a chynnig cyngor am ddim mewn diwrnodau agored

Rydym yn gallu ac yn dymuno gwneud llawer mwy ... Os hoffech chi fanteisio ar arbenigedd gan gyfrifydd, plymwr, ymgynghorydd marchnata, dylunydd gwe neu unrhyw un neu unrhyw beth arall y dymunwch gyngor neu offer neu os hoffech fod yn rhan o ddigwyddiadau i rannu gwybodaeth yna gofynnwch ac fe wnawn ein gorau i geisio eich paru â busnesau yn lleol.

Cerdyn Cymunedol

Byddwn yn lansio'r cerdyn Cymunedol yn gynnar yn 2012, bydd holl aelodau Medrwn Môn yn gymwys ar gyfer un o'r cardiau lle byddwch yn cael y cyfle i fanteisio ar ostyngiadau a gynigir gan fusnesau lleol.

E-bost: emily@b2cwales.co.uk Ffôn symudol: 07912 062877

Medrwn Môn: 01248 724944 www.b2cwales.co.uk www.medrwnmon.org

NEWYDDION CYLLIDO

Comic Relief:
Rhaglen Grantiau Cymunedau Lleol

Cefnoga Comic Relief waith ble mae tystiolaeth glir o'r effaith fanteisiol ar bobl a chymunedau sydd wedi'u heithrio neu'n anfantais trwy incwm isel, arwahanu cymdeithasol neu wledig, oed, anableddau, hil, rhywioldeb. Anelir hanner y cyllid ar gael at brosiectau sy'n cynyddu mynediad i chwaraeon ac ymarfer i bobl sy'n wynebu eithrio cymdeithasol ac unigedd, neu'n wynebu problemau yn eu bywydau. Dyrennir gweddill y grant i brosiectau sy'n cynyddu gwasanaethau lleol, adeiladu sgiliau pobl leol, cynyddu cydlyniad cymdeithasol a/neu ymateb i anghenion economaidd lleol.

Gellir ymgeisio am rhwng £1,000 a £10,000 i gefnogi prosiectau refeniw a / neu gyfalaf

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â www.cfiw.org.uk/grants.htm#comicrelief

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Mercher 15fed Chwefror 2012 (Gweinyddir y cynllun yma gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, ac felly dylid cyfeirio pob cais iddynt trwy'r wefan uchod)

Sefydliad Waterloo

Mae'r Sefydliad yn awyddus i gefnogi a chynorthwyo'r datblygiad o ddiwylliant menter yng Nghymru. Maent yn croesawu ceisiadau sy'n hwyluso pobl i ddod yn gyflogedig, unai'n gweithio i eraill neu iddynt eu hunain

Bydd y Sefydliad yn edrych yn ffafriol ar geisiadau sy'n delio â 'rhwystrau i weithio' a bydd yr un mor ffafriol i ddulliau sydd wedi profi eu hunain a'r prosiectau hynny sy'n fwy rhagweithiol.

Pwy all ymgeisio?
Maent yn croesawu ceisiadau gan elusennau cofrestredig a mudiadau a phrosiectau a bwriadau elusennol clir. Maent yn rhannu grantiau i gychwyn prosiectau, camau cychwynnol a chyllid parhaus gwerthfawr.
'Does ganddynt ddim ffin uwch nag is yn y grant a gynigir ond yn annhebygol o fod yn fwy na £100,000 mewn unrhyw flwyddyn.

Cyswllt:

Sefydliad Waterloo - Nia Sterling Swyddog Grantiau ac Ymchwil
46-48 Ffordd Caerdydd, Llandaf, Caerdydd CF5 2DT
Ffôn: 029 2083 8980 Ffacs: 029 2056 0620
E-bost: nia.sterling@waterloofoundation.org.uk
Gwefan:waterloofoundation.org.uk

NEWYDDION CYLLIDO

Plant Mewn Angen BBC

Cefnogi prosiectau drwy'r DU yn anelu i wneud gwahaniaeth pendant neu newid bywydau plant a phobl ifanc sy'n anabl neu dan anfantais, trwy dlodi, esgeulustod neu gamdriniaeth, neu broblemau ymddygiad neu seicolegol.
Efo'r rhaglen grantiau cyffredinol gallwch ymgeisio am:
Grantiau Bach o £10,000 neu lai'r flwyddyn hyd at dair blynedd
Prif Grantiau dros £100,000 y flwyddyn hyd at dair blynedd

Dyddiadau cau yn 2012:
15fed Ebrill, 15fed Gorffennaf, 15fed Hydref

Mwy o wybodaeth a ffurflenni cais ar gael o:
www.bbc.co.uk/pudsey

Hilton yn y Gymuned

Mae Hilton yn y Gymuned yn rhoi grantiau yn y meysydd canlynol:

Plant anabl - Plant mewn ysbytai
Digartrefedd - Plant ag oes gyfyngedig

Mae tua £100,000 ar gael i'w rannu pob chwarter, does dim cyfyngiad ar y swm o arian i ymgeisio. Er hynny elusen bychan yw'r Sefydliad, ac yn gyffredinol ni ddyfarnir mwy na £30,000 (y flwyddyn).
Mae'n rhaid anfon copi caled ac electroneg o'ch cais erbyn y dyddiadau cau a nodir isod er mwyn eu hystyried.
7 Chwefror 2012, 1 Mai 2012, 7 Awst 2012, a 9 Hydref 2012
Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ymwelwch â'u gwefan:
www.hilton-foundation.org.uk/application.htm

Cash 4 Clubs

Mae chwaraeon yn y gymuned i gyd am dan bobl leol, cyfleusterau lleol, grwpiau lleol a mudiadau yn cyd-weithio i ddarparu cyfleoedd i fwynhau chwaraeon. Cynigir Cash 4 Clubs holl glybiau chwaraeon y DU y gobaith o ennill grantiau o £250 i £1,000.
Dyfernir grantiau yn chwarterol. Gall Clybiau ymgeisio am Grant Chwaraeon Cash 4 Clubs trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein unrhyw amser, ar gael o'r wefan www.cash-4-clubs.com
Gall unrhyw glwb ymgeisio ond eu bod yn gofrestredig efo'u Corff Llywodraethol Cenedlaethol neu eu hawdurdod lleol.

Cysylltwch drwy e-bost: cash4clubs@betfair.com

NEWYDDION CYLLIDO

Sefydliad Charles Hayward

Fel arfer dosberthir grantiau i elusennau cofrestredig yn y Du yn unig, ac yn bennaf cyllidir costau cyfalaf. Weithiau cynigir grant prosiect i gychwyn neu ddatblygu gweithgareddau ble nad yw'r rhain yn rhan o angen refeniw'r mudiad. Rhoddir cryn bwyslais ar gyllido prosiectau sy'n ddatblygol neu'n arloesol i alluogi pethau i ddigwydd na fyddai'n digwydd fel arall. Dymunir cyllido prosiect yn ei ddyddiau cynnar, ac yn gwerthfawrogi prosiectau sy'n ataliol neu'n darparu ymyrraeth gynnar.

Y maes a ffafrir yw'r lefel gymdogol neu gymunedol.

Mae'r cynllun grantiau bychan yma yn rhannu grantiau i fyny at £5,000 i elusennau efo trosiant blynyddol o lai na £250,000. Mae maint grantiau rhaglenni eraill fel arfer rhwng £10,000 i grant unwaith ac am byth o £25,000.
Ble cytunir, gall cyllid prosiect fod am uchafswm o dair blynedd.
Gall arian prosiect fod i fyny i £15,000 y flwyddyn dros dair blynedd.
Meysydd gwaith a gefnogir yn cynnwys:

Treftadaeth a Chadwraeth, Cyfiawnder Troseddol, Hosbis a Phobl Hŷn

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Sefydliad Charles Hayward
Hayward House, 45 Harrington Gardens, London SW7 4JU
Ffôn: 020 7370 7063 a 020 7370 7067.
Safle We: www.woodwardcharitabletrust.org.uk/index.html

Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward

Cefnogir mentrau elusennol bychan lleol, a chynigir y cyllid canlynol:

- Grantiau Bychan rhwng £100 a £5,000 (dyfarnir tua 80 grant y flwyddyn)
- Grantiau mawr dros £5,000 (dyfarnir tua phum grant y flwyddyn)
- Grantiau Cynlluniau Chwarae rhwng £500 a £1,000
  (dyfernir tua 30 grant y flwyddyn)

Cyllid yn y lle cyntaf am brosiectau unwaith ac am byth, ond yr Ymddiriedolwyr yn fodlon ystyried costau rhedeg, yn cynnwys costau craidd a chyflogau.
Derbynnir ceisiadau gan elusennau cofrestredig drwy'r DU efo trosiant blynyddol o lai na £300,000.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i helpu elusennau bychan.

E-bost: contact@woodwardcharitabletrust.org.uk Ffôn:020 7410 0330
Gwefan: www.woodwardcharitabletrust.org.uk/index.html

NEWYDDION CYLLIDO

Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp

Dyfarnir grantiau i elusennau cofrestredig bychan efo gwariant blynyddol o lai na £40,000 i gynnal eu gwaith presennol efo:

- Pobl Hŷn
- Plant a phobl ifanc oedran 5-25
- Pobl ag anableddau neu broblemau iechyd meddwl
- Lles moesol - pobl yn ceisio goresgyn problemau byrhau bywyd o darddiad cymdeithasol yn hytrach na meddygol (fel llwyrddibyniaeth, anawsterau perthynas, camddefnydd, troseddu)
- Addysg a dysgu (efo diddordeb arbennig mewn pobl sy'n blentyn addysgol dan anfantais, oedolion neu blant)

Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i adolygu'r cwestiynau cymhwyster sylfaenol cyn llawr lwytho a chwblhau'r ffurflen gais. Defnyddiwch eu prawf cymhwyster ar-lein cyn ymgeisio.

Mwy o gymorth a'u ffurflen gais ar gael o www.yappcharitabletrust.org.uk
Cyswllt: Joanne Anderson Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth
8 Leyburn Close, Urpeth Grange, Chester Le Street, County Durham DH2 1TD
Ffôn: 0191 4922118 E-bost: info@yappcharitabletrust.org.uk

Mae **Comic Relief** yn lansio rhaglen grantiau newydd sbon: "Rheoli Arian yn Well" - i fynd i'r afael â'r mater o allgau ariannol ar gyfer pobl hŷn.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â'r nifer o ffyrdd y mae pobl dros 65 oed yn aml dan anfantais o ganlyniad i gymhlethdodau o ran deall materion ariannol, yn cael eu hamlygu yn aml i beryglon o gam-drin ariannol, a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gwneud dau ben llinyn ynghyd tra'n ymdopi â phrisiau'n codi.

Bydd y rhaglen yn agored i geisiadau o 16eg Ionawr 2012, gyda dyddiad cau o 17 Chwefror.
Hefyd, bydd cylch 2 ym mis Ebrill 2012. Bydd gwybodaeth bellach ar gael ar www.comicrelief.com o ganol Rhagfyr.

Os hoffech drafod y rhaglen newydd, cysylltwch ag unrhyw un yn y tîm grantiau Pobl Hŷn ar 0207 820 2000.

NEWYDDION

Grantiau ar gyfer Cofebion Rhyfel

Mae'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn rheoli nifer o gynlluniau cenedlaethol i atgyweirio a gwarchod cofebion rhyfel sy'n gysylltiedig ag unrhyw wrthdaro. Ceir tri chynllun, a rhyngddynt maent yn cwmpasu'r DU cyfan.

Yn gyffredinol, gall yr Ymddiriedolaeth gefnogi'r canlynol: cadwraeth; atgyweirio tebyg at ei debyg; gwaith trwsio a sefydlogi adeiladwaith; adnewyddu darnau coll oddi ar gofeb sy'n rhan annatod o'i dyluniad; mewn rhai achosion, ychwanegu enwau newydd at hen gofebion; arolygon proffesiynol o gyflwr ac adroddiadau am adeiladwaith. Nid yw'r grantiau ond ar gael ar gyfer cofebion **sy'n bodoli eisoes**, a rhaid i'r gwaith trwsio a gwarchod cyd-fynd â dyluniad ac arddull gwreiddiol y gofeb.

Cynllun Grantiau Bychain

Yn gyffredinol, mae'r cynllun hwn yn cynnwys pob cofeb ryfel yn y DU sydd dros 15 oed. Fodd bynnag, mae gwaith ar gofebion sy'n llai na 15 oed yn gymwys os gwnaed y difrod sy'n cael ei drwsio drwy fandaliaeth. Gall grantiau dalu hyd at 50% o'r costau cymwys hyd at uchafswm o £2,500.

Mae nodiadau canllaw cyflawn ar gael yn www.warmemorials.org/uploads/publications/193.pdf Rhaid i'r ceisiadau ddechrau gyda ffurflen Mynegi Diddordeb sydd ar gael i'w lawr lwytho yn: www.warmemorials.org/small-grants-scheme/ Derbynnir ceisiadau unrhyw adeg.

CYFARFOD PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, ddydd Iau, 19 Ionawr 2012 yn Hen Ysgol, Marianglas gydag Islwyn Humphries yn cadeirio. Tynnwyd sylw ar yr angen i ddiweddaru'r Compact a'r Cod Ymarfer Cyllido a phenderfynwyd cynnal cyfarfod o gynrychiolwyr i gyflawni hyn cyn unrhyw ymgynghoriad. Etholwyd Mr Ken Hughes, aelod Portffolio Cysgodol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn Is-gadeirydd. Derbyniwyd copïau o Gynllun Corfforaethol 3 blynedd y Cyngor Sir ynghyd â'r cynigion ar gyfer cyllideb 2012 - 2013. Nodwyd sefyllfa ariannol enbyd y Cyngor a gofynnwyd i'r swyddogion ystyried yn ofalus unrhyw gynlluniau i dorri ar y sector gwirfoddol. Cyflwynwyd adroddiad ar y Cynllun Cymunedol a'r Cynllun Integredig ynghyd â'r diweddaraf ynglŷn â Rhesymoli Partneriaethau Strategol. Anogwyd y sector gwirfoddol i ymateb i'r dogfennau allweddol yma. Cyflwynwyd papur ar grantiau a chaffael gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac awgrymwyd y dylid cynnal trafodaeth gyda Swyddog Caffael y Cyngor Sir. Cyflwynwyd Polisi Gwirfoddoli drafft y Cyngor Sir a derbyniwyd adroddiad ar faterion llywodraethu gan gynnwys aelodaeth y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Cyswllt a'r effaith posib o'r penderfyniad i ohirio etholiadau'r Cyngor. Awgrymwyd y dylai cynrychiolwyr y sector barhau am flwyddyn arall yng ngoleuni'r penderfyniad hyn. Cyflwynwyd copi o lythyr Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn yn adrodd ar gomisiynu corfforaethol, polisi gwirfoddoli, aelodaeth y sector mewn sgriwtini, cyllido cyfranogol a strategaeth ymglymiad cymunedol. Penderfynwyd bod angen cyfarfod arbennig yn ystod mis Mawrth.

NEWYDDION

Diwrnod Cicio'r Sigaréts Allan 4 Ebrill 2012

Cynhelir diwrnod gweithgareddau Cicio'r Sigaréts Allan 2012 ar 4ydd Ebrill i bobl ifanc ar draws Cymru. Bydd cymryd rhan yn y gweithgarwch yn galluogi pobl ifanc i ddysgu mwy am anhwylder iechyd a achosir drwy ddefnyddio tybaco ynghyd â'r materion eraill o'r diwydiant tybaco mewn grwpiau cyfoedion a o fewn cymunedau lleol.

Mae Diwrnod Cicio'r Sigaréts Allan yn bartneiaeth rhwng Tenovus a Ffaith (Rhaglen Ieuenctid ASH Cymru.) Nod Ffaith yw lleihau pa mor dderbyniol yw'r defnydd o gynnyrch tybaco gan bobl ifanc ar draws Cymru.

A fyddech mor garedig a chylchredeg ymysg eich cysylltiadau.
Gall unrhyw berson ifanc neu grwp ieuenctid fod ynghlwm.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gymryd rhan yn unrhyw un o'r Diwrnodau Cicio'r Sigaréts Allan cysylltwch â ni ymhellach.

ASH Cymru
2il Lawr
8 Stryd yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG
Ffôn: 029 2064 1101
Ffacs: 029 2064 1045
Ffôn Symudol: 07799 687 424
Ebost: laura@ashwales.org.uk
www.ashwales.org.uk

Prosiect Cymunedau Mentrus

Gall y Prosiect Cymunedau Mentrus, o fewn Medrwn Môn, darparu cyngor a chefnogaeth o bob math ar gyfer grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol. Yn cynnwys:

- Cyngor am Gyllid, gwblhau ceisiadau llwyddiannus am arian, Cynlluniau Codi Arian a chyllid cynaliadwy.
- Creu neu gynhyrchu incwm ar gyfer eich grŵp neu sefydliad.
- Datblygu Cynlluniau Busnes a Chynlluniau Marchnata.
- Datblygu polisïau.
- Cymorth ar gyfer Ymddiriedolwyr, Llywodraethu a Gwirfoddolwyr.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Armon Williams, Swyddog Cymunedau Mentrus, Medrwn Môn, Uned 5C, Parc Bryn Cefni, Llangefni, LL77 7XA
Ffôn: 01248 724 944

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) 16 Ionawr, 2012

1.Adroddiad y Cadeirydd yn dilyn cyfarfod y Bwrdd, lle rhagwelwyd sefyllfa adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn. Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd mewn sefyllfa ddifrifol gyda 6 swyddi gwag meddygol. Cyllid ar gyfer yr Hwyluswyr HSCWB bellach wedi cael ei gytuno tan 2014 yn amodol ar berfformiad gyda chynlluniau swydd newydd yn cael eu cyflwyno. Mae posibilrwydd o ymestyn hyn i 2015
2. Adolygiadau Gwasanaeth Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd, cytunwyd bod achos dros newid wedi'i wneud. Bydd ffocws ar ganlyniadau tymor hir gyda'r pwyslais ar ansawdd a diogelwch. Roedd yn bwysig i leihau gwaith y tu allan i oriau' gan fod hyn wedi ei brofi cyfraddau goroesi is. Roedd yn bwysig i gefnogi pawb wrth reoli eu hiechyd eu hunain. Cynaladwyedd yn hanfodol. Angen cymryd i ystyriaeth yr effaith ar Ofalwyr. Mewn Pediatrig model o ofal yn cael ei datblygu. Cam nesaf - dogfen sy'n cynnwys asesiad effaith ac yn cynnwys cysylltiadau teithio a'r gwasanaeth ambiwlans. Yn ystod Ebrill - Mehefin bydd paratoi ar gyfer ymgynghori ffurfiol os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol. Ymholiad - All Awdurdodau Lleol fodloni dyheadau'r Bwrdd Iechyd? Hanfodol i weithio gyda'r holl wahanol GRhG.
3 Dogfen a gyflwynwyd oedd - Blaenoriaethau Allweddol 2012 / 3 CPG. Gwahoddwyd sylwadau ar hyn cyn iddo gael ei gadarnhau ar 22 Chwefror gan y Bwrdd. (Mae copi ar gael yn Medrwn Môn). Oes unrhyw beth ar goll neu sydd angen ei newid?
4 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) - daw hyn i rym yn ystod 2012 a bydd yn cynnwys rhai newidiadau sylweddol i wasanaethau iechyd meddwl gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau lleol gofal iechyd meddwl sylfaenol gyda chefnogaeth a ddarperir o fewn neu ochr yn ochr â meddygon teulu arferion presennol. Mae model gwasanaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) i gefnogi pobl o bob oed gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus ysgafn i gymedrol. Cynllunio triniaeth gofal a chydlynu gofal yn hanfodol yn ogystal â darpariaeth estynedig eirioli annibynnol cefnogol Iechyd Meddwl . Mae hyn i gyd y tu allan i'r gwasanaethau sy'n dod o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a mynediad gorfodol a thriniaeth. LICC yn darparu cyllid i weithredu'r mesurau a fydd yn cynnwys plant a phobl ifanc a bydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r gwasanaethau CAMHS presennol. Mae'r mater o gau'r uned ar gyfer cleifion dementia yn Nwyfor a Meirionnydd yn gorfodi cleifion gael eu hasesu yn Llangefni wedi ei godi unwaith eto. Dywedwyd ei bod wedi bod hyd yn hyn yn amhosibl recriwtio staff meddygol. Argymhellwyd i'r Bwrdd ymchwilio i ddefnyddio Ymarferwyr Nyrsio sy'n gallu rhagnodi meddyginiaeth i leihau'r angen am feddygon.
5 Materion a godwyd gan Aelodau - Cau unedau / wardiau dros dro yng Ngogledd Cymru. Adroddwyd mai ar gyfer Bryn Beryl roedd hyn yn golygu mai dim ond 3 neu 4 o gleifion yr wythnos oedd yn gallu cael mynediad i wely a bu'n rhaid i mynd i rywle arall. Roedd cyfradd llenwi'r gwelyau fel arfer yn 70%. Roedd prinder dybryd o nyrsys oedd yn golygu, er mwyn cynnal gwasanaeth diogel, yr unig ddewis oedd cau ward. Llai nag 1 claf y dydd yn mynychu'r uned Mân Anafiadau ar ôl 5pm. Ym Mae Colwyn roedd hyn yn 6 y diwrnod. Nid oedd llawe o amser i gynghori bobl ar gau yn y dyfodol agos. Hysbyswyd y Bwrdd bod pobl yn gyffredinol, wedi colli hyder yn y Bwrdd ac nid oedd yn credu ei fod yn fesur dros dro. Cawsom wybod na allai'r Bwrdd gau gwelyau yn barhaol heb ymgynghori cyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynghylch cynnal urddas cleifion cawsom wybod bod 250,000 o ynau ychwanegol wedi cael eu harchebu a'u derbyn. Ymchwilir i fewn i brinder o glustogau.
(Diolchwn i Dilys W Shaw am yr erthygl yma).

GWYBODAETH

Grŵp Gofal Gwasanaeth Arbennig Cymunedol, Canolradd

Sefydlwyd y grŵp i wella perthynas gweithio rhwng y trydydd sector a'r gwasanaethau statudol iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd newidiadau yn digwydd yn fuan ar Ynys Môn i ddatblygu gwasanaethau integredig o fewn y Gofal Cymunedol, Canolradd ac arbennig gyda'r nod i sefydlu consortiwm rhwng y gwasanaethau trydydd sector, fel awgrymwyd gan Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Tîm Lleoliad Ynys Môn. Mae'r dyddiadau canlynol eisoes wedi eu trefnu tan fis Ebrill i ddatblygu consortiwm ac i fapio allan yn union pa wasanaeth sydd ar gael ac yn lle ym mhob 6 bro ar Ynys Môn (seiliedig ar GPs). Dyddiadau yw: 20 Chwefror, 19 Mawrth, 16 Ebrill - y cwbl i'w cynnal yn swyddfa Cymunedau'n Gyntaf, Llangefni.

Angen Help, Gwybodaeth a Chyngor?

Cynhelir dau ddigwyddiad ar 2 Mawrth yn Ysgol Bodorgan a'r neuadd Gymuned ac ar 26 Mawrth yn Neuadd Gymuned Llanfaelog i wella ymrwymiad gyda'r bobl sy'n byw yng nghefn gwlad Ynys Môn.
Bydd sawl asiantaeth yn bresennol i gynnig cymorth, gwybodaeth a chyngor yn cynnwys pa grwpiau lleol sy'n bodoli, asiantaethau gwirfoddol a statudol.

Hefyd ceir cymorth ymarferol fel gwybodaeth budd-dal, prawf diogelwch cartref gan y Gwasanaeth Tân, cefnogaeth i ofalwyr a phobl fregus, gofal cymdeithasol ac iechyd, cyfarfod a chyfarch heddlu cymuned, a chyfle i ddatblygu prosiectau newydd fel cyfeillgarwch a chynllun tro da, i enwi rhai.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Ann Perkins yn Medrwn Môn ar 01248 724944 neu ebost ann@medrwnmon.org neu ymwelwch â safle we Medrwn Môn: www.medrwnmon.org

Swyddog Prosiect Busnes yn Cefnogi Cymunedau

Penodwyd Emily Williamson yn swyddog prosiect i weithio ar y prosiect **Busnes yn Cefnogi Cymunedau** ar Ynys Môn. Mae'n gobeithio creu cysylltiadau o fudd i bawb rhwng busnesau a grwpiau cymunedol / trydydd sector ar Ynys Môn,
(gweler tudalen 2).

EIN CYFEIRIAD YW:
Uned 5c, Parc Diwydiannol Bryn Cefni
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7XA
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org